**Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol**

**Cofnodion y Cyfarfod Cychwynnol a gynhaliwyd am hanner dydd 14 Gorffennaf 2021**

**Cynhaliwyd y cyfarfod ar Microsoft Teams**

**Yn bresennol ac ymddiheuriadau:** Gweler y rhestrau atodedig

**Croeso a Chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AS y cyfranogwyr i'r cyfarfod agoriadol. Estynnodd groeso arbennig i'r ASau newydd a oedd yn bresennol. Rhoddodd hanes byr o'r Grŵp ac amlinellodd y gweithgareddau yr oedd wedi'u cyflawni yn y Senedd flaenorol. Esboniodd fod gan y Grŵp bolisi aelodaeth cynhwysol a hyblyg ac anogodd ASau, yn benodol, i hysbysu'r Grŵp o unrhyw sefydliadau yn eu hetholaeth, neu gynghorwyr neu swyddogion llywodraeth leol a fyddai'n elwa o gael eu gwahodd i'r cyfarfodydd.

**Ethol Cadeirydd:** Cynigiwyd Huw Irranca-Davies AS gan Llyr Gruffydd AS ac eiliwyd gan Sarah Murphy AS. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau pellach, etholwyd Huw yn Gadeirydd.

**Ethol Ysgrifennydd**: Cynigiwyd Chris Roberts gan Sarah Murphy AS ac eiliwyd gan Llyr Gruffydd AS. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau pellach, etholwyd Chris yn Ysgrifennydd.

**Cytuno ar Ddatganiad Ffurfiol o Ddiben y Grŵp (Yn flaenorol: Codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Teithio Llesol a'i gweithredu):** Ar ôl trafodaeth fer cytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd gryfhau geiriad y datganiad i adlewyrchu'n well y ffordd yr oedd y Grŵp wedi gweithredu'n ymarferol.

**Rhaglen y Grŵp ar gyfer y Dyfodol:** Dosbarthwyd rhestr o bynciau posibl ar gyfer cyfarfodydd Grŵp yn y dyfodol (gweler atodiad 1). Awgrymwyd y pynciau pellach a ganlyn:

• Diogelwch teithwyr llesol a beiciau (o bob math).

• Ymgysylltu mwy â'r proffesiynau peirianwyr cynllunio/priffyrdd.

• Cyfle i ddysgu gan Rwydwaith Manceinion Fwyaf a Rhwydwaith Bee.

• Mae unrhyw un o dan 17 oed yn deithiwr llesol yn ddiofyn os yw'n teithio'n annibynnol - dylai hyn gael effaith lawer mwy ar benderfyniadau cynllunio.

• Teithio llesol mewn ardaloedd gwledig.

• Sut ydym ni’n teithio'n wyrdd o safbwynt ychwanegu a gwella isadeiledd gwyrdd - yn aml caiff coed a gwrychoedd eu tynnu i osod y datrysiadau peirianyddol ar gyfer teithio llesol, nad ydyn nhw bob amser wedyn yn creu'r lleoliad teithio brafiaf i ddefnyddwyr. Y buddion ychwanegol o helpu'r agenda i adfer natur.

• Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a'r angen am fynediad gwell iddo i bawb, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio beiciau neu gadeiriau olwyn wedi'u haddasu.

• Tynnu sylw at arfer gorau mewn prosiectau sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol trwy'r Gronfa Teithio Llesol.

• Ymgysylltu â chynghorwyr/ymgeiswyr lleol cyn yr etholiadau lleol ar sut y byddant yn cynnwys teithio llesol yn eu maniffestos.

• Effaith atgyweiriadau ffyrdd, yn enwedig llenwi tyllau mewn ffyrdd, ar feicio.

• Sut i gynyddu cefnogaeth y cyhoedd i fesurau teithio llesol.

• Targed newid moddol Llywodraeth Cymru.

O ystyried nifer y pynciau a godwyd a'r amser cyfyngedig sydd ar gael i'r Grŵp, cytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd lunio rhestr wedi'i blaenoriaethu o bynciau y gellid eu cynnwys yn y tymor canolig, gan ystyried y gefnogaeth i'r pynciau amrywiol a fynegwyd yn y cyfarfod.

**Sesiwn Holi ac Ateb gyda Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**

Croesawodd y Cadeirydd Lee i'r cyfarfod. Soniodd Lee am heriau ei bortffolio newydd. Pwysleisiodd y pwysigrwydd a roddodd ar waith y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol a sut yr oedd yn gwerthfawrogi ei gyfarfodydd chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd. Wrth sefydlu'r adran newydd, roedd y Prif Weinidog wedi nodi'n glir na fyddai "chwarae o gwmpas" ar dargedau hinsawdd, roedd yn rhaid eu cyrraedd. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau mawr o ran ymddygiad ac ni fyddai'n hawdd. Roedd o'r farn nad oedd y targed newid moddol cyfredol yn y Llwybr Newydd yn ddigon uchelgeisiol. Roedd cyflwyno teithio llesol yn her i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Byddai gan Drafnidiaeth Cymru rôl ehangach a byddai'r cydbwyllgorau corfforaethol newydd, er nad oes ganddynt gyfrifoldebau trafnidiaeth ffurfiol, yn chwarae rôl wrth gyflawni. Cyhoeddodd y byddai canllawiau teithio llesol diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar 16 Gorffennaf. Erbyn hyn roedd y lefel uchaf erioed o gyllid teithio lesol ar gael, addawodd i nodi'r manylion ar sut roedd yn cael ei wario mewn llythyr at y Cadeirydd. Roedd y lefel newydd o gyllid bellach yn caniatáu buddsoddi mewn celf gyhoeddus ac offer chwarae ar hyd llwybrau a fyddai, yn ei farn ef, yn cynyddu defnydd. Bellach byddai cyllid cyfyngedig, tua £2 filiwn, ar gyfer llwybrau hamdden ond roedd y ffocws yn parhau ar alluogi siwrneiau bob dydd.

Wrth ymateb i gwestiynau gan aelodau, gwnaeth y Dirprwy Weinidog y pwyntiau a ganlyn: mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am brosesu ceisiadau cyllid a datblygu rhestr o gynigion. Dylid rhoi pwys sylweddol ar amddifadedd wrth ddyrannu cyllid. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r adolygiad ffyrdd, a diolchodd i gynghorwyr a oedd wedi ystyried yr effeithiau cynnar, nid yw newidiadau o'r fath yn hawdd. Erbyn hyn roedd cyllid teithio llesol yn cynnwys 10% mewn refeniw. Roedd cynnydd yn cael ei wneud gyda'r Adran Addysg wrth normaleiddio teithio llesol i'r ysgol, ond roedd yn siomedig yn nifer y ceisiadau am strydoedd ysgol, byddai'n ystyried sut y gellid gwneud y broses yn haws. Roedd yn awyddus i ddeall yn well y problemau wrth gaffael gwasanaethau teithio llesol. Roedd angen gwella sgiliau a statws staff teithio llesol. Roedd posibilrwydd y gellid defnyddio cyllid refeniw ar gyfer staffio, ond byddai am weld hynny'n digwydd ar lefel ranbarthol (cydbwyllgorau corfforaethol). Nid oedd yn derbyn y gallai cyllid cynnal a chadw ffyrdd fod o fudd arbennig i feicwyr. Byddai dull gwahanol o gyflawni newid moddol mewn ardaloedd gwledig. Roedd yn awyddus i fuddsoddi mwy mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, ond ni allai llwybrau hamdden fwynhau'r un flaenoriaeth â'r rhai sy'n hwyluso newid moddol ac felly'n helpu i gyrraedd targedau newid hinsawdd. Byddai gwrthwynebiad i'r newid i derfynau 20mya, ond lleiafrif uchel eu cloch fyddai hyn yn bennaf, nid y mwyafrif o bell ffordd. Rhoddodd deyrnged i waith Cyngor Caerdydd wrth ddatblygu seilwaith teithio llesol ac roedd yn ei weld yn cael ei ddefnyddio.

Diolchodd y Cadeirydd i Lee am ei gyfraniad.

**Unrhyw Fater Arall:** Ni chodwyd unrhyw eitemau eraill.

**Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**

| Enw Cyntaf | Cyfnew | Teitl y Swydd | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Ken | Barker | | Cycling UK |
| Rebecca | Brough | Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth | Y Cerddwyr |
| Richard | Brunstrom | | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Teresa | Ciano | Rheolwr Partneriaeth | GoSafe, Diogelwch Ffyrdd Cymru |
| Duncan | Dollimore | Pennaeth Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd | Cycling UK |
| Sian | Donovan | Cyfarwyddwr | Pedal Power |
| David | Edwards | | Casnewydd Community Cycling |
| Richard | Evans | Cadeirydd | Training Wales |
| Christine | Farr | Uwch Arbenigwr Hybu Iechyd - Ysgolion Iach | Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru |
| Catherine | Floyd | Ymgynghorydd Meddygol Locwm ym maes Iechyd y Cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Matthew | Gilbert | Arweinydd Teithio Gweithredol | Trafnidiaeth Cymru |
| Danny | Grehan | Staff Aelodau'r Senedd | Heledd Fychan AS |
| Natalie | Grohmann | Trafnidiaeth - Swyddog Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau | Llywodraeth Cymru |
| Llyr | Gruffydd | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Rhiannon | Hardiman | Rheolwr Cymru | Living Streets |
| Stephen | Hughes | | |
| Huw | Irranca-Davies | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Carwyn | Jones | Swyddog Etholaeth a Chynnwys Digidol | Rhun ap Iorwerth AS |
| Mike | Jones-Pritchard | Cynghorydd Sir | Cyngor Caerdydd |
| Richard | Keatinge | Ysgrifennydd | Beicio Bangor |
| Robert | Kent-Smith | | Llywodraeth Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Peter | King | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Hugh | Mackay | | Cycling UK Bro Morgannwg |
| John | Mather | | Cycling UK (Gogledd Cymru) |
| Sarah | Murphy | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| David | Naylor | | Wheelrights |
| Gwenda | Owen | Swyddog Ymgysylltu - Cymru | Cycling UK |
| Dareyoush | Rassi | Ysgrifennydd | Wheelrights |
| Jenny | Rathbone | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Paula | Renzel | Swyddog Polisi | Sustrans Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd | Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Kaarina | Ruta | Cynorthwyydd Trafnidiaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Emma | Sandrey | Cynghorydd Sir | Cyngor Caerdydd |
| John | Sayce | Cadeirydd | Wheelrights |
| Ben | Sears | Swyddog Cymorth Polisi Cynaliadwyedd, Amgylchedd a Thrafnidiaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Gwyn | Smith | | Sustrans |
| Phil | Snaith | Ysgrifennydd | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Paul | Streets | Swyddog Ysgolion | Cardiff Cycle City |
| Rhys | Taylor | Uwch Ymchwilydd | Jane Dodds AS |
| Carolyn | Thomas | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Rhiannon | Wade | Swyddog Teithio Llesol (Ysgolion) | Cyngor Caerdydd |
| Tom | Wells | Perchennog | bikebikebike |

**Ymddiheuriadau:**

Anne Adams-King, Prif Swyddog Gweithredol, Beicio Cymru

Rhun ap Iorwerth, Aelod o’r Senedd,  Senedd Cymru

Joseph Carter, Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint

Warren Davies, Ysgrifennydd, Ymgyrch Beicio Wrecsam

Luke Fletcher, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru

Amy Preece, Rheolwr Prosiect Cyngor Casnewydd

Luke Stacey, Swyddog Datblygu Mynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Casnewydd

Leah Young, Swyddog Prosiectau Teithio Llesol, Cyngor Casnewydd

**Atodiad A: Pynciau Posibl i'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol yn y Dyfodol**

Er mwyn helpu i lywio'r drafodaeth ar raglen waith y Grŵp yn y dyfodol, isod mae rhestr o bynciau sy'n cael eu cario drosodd o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol diwethaf, neu a awgrymwyd gan aelodau, neu ddigwyddiadau sydd ar ddod sy'n berthnasol i'r Grŵp.

Beiciau Cargo – arddangosfa ymarferol o feiciau cargo, gan roi cyfle i ASau asesu galluoedd beiciau cargo a chael cyfle i reidio un (cyhyd â bod rheolau Covid yn caniatáu).

Adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol - Mae'r Ddeddf TLl yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y Ddeddf erbyn mis Medi (Tachwedd o bosibl) 2022 fan bellaf, sy'n golygu y dylid ystyried trefniadau ar gyfer yr adolygiad yn ddiweddarach eleni.

Sgwteri trydan - ydyn nhw'n ategu neu'n atal teithio llesol?

Hyrwyddo teithio llesol - pa mor effeithiol mae dyletswydd y Ddeddf i hyrwyddo teithio llesol yn cael ei gweithredu (yn dilyn o gyfarfod Rhagfyr 2020)?

Cyfraniad beicio i economi Cymru - dechreuodd y grŵp blaenorol gysylltu â chwmnïau yn gynharach eleni gyda'r bwriad o drefnu digwyddiad arbennig a chafodd bum mynegiant o ddiddordeb.

Cynllunio - Yn dilyn lobïo gan y grŵp blaenorol, mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd fod â seilwaith teithio llesol ar waith cyn i bobl symud i'w cartrefi newydd. A yw hyn yn digwydd, a yw datblygwyr yn ymwybodol?

Teithio Llesol i Ysgolion - Drafftiodd y grŵp blaenorol becyn cymorth i hyrwyddo cerdded a beicio i'r ysgol, ond gohiriwyd y cyfieithu a'r lansiad oherwydd y pandemig.

Lynn Sloman o Drafnidiaeth er Ansawdd Bywyd - adroddiad ar ei gwaith i Lywodraeth Cymru ar y cyfraniad y gall teithio llesol ei wneud i ddatgarboneiddio yng Nghymru.

Rhwystrau i ddarparu teithio llesol effeithiol ar lefel awdurdod lleol - trafodaeth â ffigyrau awdurdodau lleol allweddol.

Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru - sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu?